Chartered Institute of Housing Cymru

# Beth mae angen i chi ei wybod am y strategaeth tlodi plant ddrafft

Gorffennaf 2023



# Beth mae angen i chi ei wybod am y strategaeth tlodi plant ddrafft

Chartered Institute of Housing Cymru

## Cefndir

Mae'r mesur plant a theuluoedd (Cymru) yn gosod dyletswydd ar weinidogion Cymru i bennu amcanion tlodi plant ac adrodd ar gynnydd tuag at yr amcanion hynny. Mae'r strategaeth ddrafft hon yn adeiladu ar fuddsoddiadau'r deng mlynedd diwethaf ac yn ceisio ailffocysu amcanion 2015 ar gyfer cefnogi teuluoedd allan o dlodi. Mae'r strategaeth yn blaenoriaethu camau i liniaru effeithiau niweidiol byw mewn tlodi a gwella'r cyfleoedd i blant sy'n byw mewn tlodi. Mae'n nodi pum amcan a phum blaenoriaeth i drechu tlodi plant yng Nghymru.

## Diffinio tlodi

Mae strategaeth tlodi plant Cymru 2011 yn diffinio tlodi fel:

> *Cyflwr hirdymor o fethu â chael adnoddau digonol i fforddio bwyd, amodau neu amwynderau byw rhesymol neu i gymryd rhan mewn gweithgareddau y mae eraill yn eu cymdeithas yn eu cymryd yn ganiataol.*

Mae'r diffiniad hwn yn cael ei gadw gan Lywodraeth Cymru i sicrhau cysondeb o ran ymagwedd a pharhad gyda chamau ymadael yn cael eu cymryd i ymdrin â thlodi plant a thlodi'n fwy cyffredinol.

## Lefelau tlodi plant ac anfantais economaidd-gymdeithasol.

Awgryma'r dystiolaeth ddiweddaraf fod 28 y cant o blant yn byw mewn tlodi incwm cymharol ar hyn o bryd. Y plant sy'n byw mewn cartrefi lle nad oes oedolyn yn gweithio sy'n wynebu'r risg fwyaf o dlodi incwm cymharol. Fodd bynnag, roedd 81 y cant o blant sy'n byw mewn tlodi incwm cymharol yn byw mewn aelwydydd sy'n gweithio. Mae tebygolrwydd y bydd 40% o blant y mae eu penteulu'n perthyn i grŵp Pobl Dduon, Asiaidd neu leiafrifoedd ethnig yn byw mewn tlodi incwm cymharol. O'i gymharu â thebygolrwydd o 22% ar gyfer y plant hynny y mae eu penteulu'n perthyn i grŵp ethnig gwyn.

Mae gwahaniaeth rhwng aelwydydd sy'n cynnwys rhywun anabl a'r rhai nad ydynt, am fod 31 y cant o blant sy'n byw mewn teulu gyda pherson anabl mewn tlodi incwm cymharol. O'i gymharu â 26 y cant o'r rhai mewn teuluoedd lle nad oes neb yn anabl.

Mae hyn yn amlinellu sut mae amddifadedd a nodweddion gwarchodedig yn rhyngweithio, gyda rhai pobl a chymunedau'n profi canlyniadau gwaeth oherwydd eu nodweddion gwarchodedig a'u hanfantais economaidd-gymdeithasol.

## Pum amcan a phum blaenoriaeth

Mae'r strategaeth ddrafft yn nodi pum amcan sy'n adlewyrchu'r meysydd y bydd Llywodraeth Cymru yn symud ymlaen â nhw i wneud newid mesuradwy i fywydau plant a phobl ifanc mewn tlodi. Mae pum blaenoriaeth hefyd i'w cyflawni yn erbyn pob un o'r pum amcan.



## Amcan 1: Lleihau costau a mwyafu incwm teuluoedd gymaint â phosib

Sicrhau bod pobl yn ymwybodol o'r hyn y mae ganddynt hawl iddo, gan ei gwneud yn haws hawlio cymorth ariannol a darparu cymorth i gael mynediad i gymorth ymarferol.

Mae hyn yn cynnwys cefnogi pobl gyda chost bwyd, tanwydd, ac eitemau hanfodol ochr yn ochr ag eitemau hanfodol.

**Blaenoriaeth 1: Hawl** (rhoi arian ym mhocedi pobl)

Gan adeiladu ar eu gwaith presennol i drechu tlodi plant bydd Llywodraeth Cymru'n:

- Gweithio gyda phartneriaid i gynyddu'r ddarpariaeth o wybodaeth, cyngor a chymorth wyneb yn wyneb i bobl ynghylch hawlio eu cymorth ariannol fel rhan o'r gwaith ehangach o cyflwyno gwaith mwyafu incwm.
- Bwrw ymlaen â datblygu system Budd-daliadau i Gymru sydd i'w chyflwyno gyda thosturi, a chyflymu gwaith gyda'n partneriaid i basportio a symleiddio ymgeisio am fudd-daliadau Cymru i'w gwneud yn fwy hygyrch.

## Amcan 2: Creu llwybrau allan o dlodi fel bod plant a phobl ifanc a'u teuluoedd yn cael cyfleoedd i wireddu eu potensial

Trwy gydol bywyd unigolyn, darparu'r offer angenrheidiol i helpu pobl allan o dlodi drwy addysg, hyfforddiant a chefnogaeth i mewn i waith teg. Mae'n rhaid i drechu tlodi plant gynnwys cefnogi rhieni a gofalwyr i ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i gael cyflog digonol. Mae'n rhaid i ni sicrhau y caiff hyn ei gyflawni ar gyfer pobl sy'n wynebu rhwystrau ychwanegol o ganlyniad i wahaniaethu, gan gynnwys yr hyn sy'n gysylltiedig â rhyw, anabledd, ethnigrwydd neu rywioldeb.

**Blaenoriaeth 2: Creu cenedl waith deg** (heb adael neb ar ôl)

Bydd Llywodraeth Cymru yn cynnal ac yn cryfhau eu gwaith o gefnogi llwybrau allan o dlodi drwy ein polisïau blynyddoedd cynnar, addysg a chyflogaeth. Bydd Llywodraeth Cymru'n:

- Cyflwyno yn erbyn argymhellion y comisiwn gwaith teg a hyrwyddo gwaith teg trwy bartneriaethau cymdeithasol a deddfwriaeth caffael cyhoeddus.
- Cynyddu ein ffocws drwy'r cynllun cyflogadwyedd a sgiliau i flaenoriaethu a chydgrynhoi cymorth cyflogadwyedd cenedlaethol dan arweiniad Llywodraeth Cymru i sicrhau nad oes neb yn cael ei adael ar ôl, er mwyn cefnogi ymhellach y rhai sydd heb gynrychiolaeth ddigonol ac yn ddifreintiedig yn y farchnad lafur.
- Ffocysu gwaith ar draws y llywodraeth i ddod o hyd i atebion fforddiadwy i gostau gofal plant a thrafnidiaeth er mwyn dileu rhwystrau i waith a gwneud i waith dalu.

## Amcan 3: Cefnogi lles plant a theuluoedd a sicrhau bod gwaith ar draws Llywodraeth Cymru yn cyflwyno ar gyfer plant sy'n byw mewn tlodi, gan gynnwys y rhai sydd â nodweddion gwarchodedig, fel y gallant fwynhau eu hawliau a phrofi gwell canlyniadau

Yng Nghymru, rydyn ni i gyd eisiau'r gorau i'n plant waeth beth yw eu cefndiroedd, o ble maen nhw'n dod, neu ym mhle maen nhw'n byw. Mae Llywodraeth Cymru wedi clywed gan rieni a gofalwyr ynghylch yr angen am amodau tai o ansawdd gwell a thai fforddiadwy. Mae angen cefnogaeth gymunedol hefyd lle mae anghenion diwylliannol ac ieithyddol teuluoedd lleol yn cael eu deall a'u diwallu.

**Blaenoriaeth 3: Adeiladu cymunedau** (gwasanaethau hygyrch, cydgysylltiedig i ddiwallu anghenion y gymuned)

---

[1] Taliadau i unigolion yw'r rhain sydd wedi'u datganoli i Lywodraeth Cymru. E.e., y cynllun Gostyngiad Treth Gyngor i helpu aelwydydd i dalu eu bil treth gyngor, y grant hanfodion ysgol a phrydau ysgol am ddim.

Nid yw hyn yn golygu gwneud pethau i gymunedau. Mae'n golygu gwneud pethau gyda phobl mewn cymunedau, sy'n gwybod beth sy'n bwysig iddyn nhw a'r hyn sydd ei angen arnynt, gan gynnwys plant a phobl ifanc.

Gan adeiladu ar waith presennol bydd Llywodraeth Cymru'n:

- Meddwl am gymunedau wrth ddatblygu, adolygu ac ariannu polisïau a rhaglenni perthnasol. Hyrwyddo gwasanaethau aml-asiantaeth ar ffurf siop un alwad yn y gymuned i helpu i fynd i'r afael â'r amrywiaeth o anghenion ac anfanteision cydgysylltiedig y mae pobl sy'n byw mewn tlodi yn eu hwynebu.
- Bwrw ymlaen â gweithio gyda phartneriaid ar ddarparu mwy o gynigion sy'n seiliedig ar gymunedau ynghyd â gweithgareddau cost isel ar gyfer teuluoedd i gefnogi iechyd a lles.
- Sicrhau, wrth ddatblygu polisi cymunedau, bod ffyrdd cyd-gynhyrchiol a chynhwysol newydd o weithio'n cael eu nodi, gan ddefnyddio ymagwedd gweithredu cymunedol at gyfeirio datblygiad gwasanaethau cydgysylltiedig lleol i drechu tlodi heb stigma.

## Amcan 4: Sicrhau bod plant, pobl ifanc a'u teuluoedd yn cael eu trin ag urddas a pharch gan y bobl a'r gwasanaethau sy'n rhyngweithio â nhw, rhoi cefnogaeth iddynt a herio stigma tlodi

Mae disgwyl i'r bobl a'r gwasanaethau sy'n darparu cefnogaeth i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd weithredu mewn ffordd nad yw'n ychwanegu at y pwysau a grëir gan dlodi. Pwysau a all arwain at les meddyliol ac iechyd meddwl gwael.

Mae rhai teuluoedd mewn tlodi yn profi gwahaniaethu a stigma oherwydd eu nodweddion gwarchodedig ac oherwydd eu profiad o dlodi. Mae hyn hefyd yn cael effaith negyddol ar les.

**Blaenoriaeth 4: Cynhwysiad** (gwasanaethau caredig a thosturiol nad ydynt yn achosi stigma)

Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi ymrwymo i hyrwyddo gwasanaethau sy'n seiliedig ar berthynas gyda charedigrwydd a thosturi. At hynny, byddant yn:

- Cyflymu gwaith gyda'r hyb cymorth ACE a straen trawmatig Cymru ar gynllun gweithredu ar gyfer fframwaith Cymru a gyfeirir gan drawma a fydd yn cynnwys nodi unrhyw adnoddau ychwanegol sydd eu hangen gan gynnwys help a chymorth i sefydliadau.
- Mabwysiadu ymagwedd seiliedig ar hawliau plant at gyflwyno ein rhaglen lywodraethu, yn unol â'r CCUHP, sy'n cynnwys trechu tlodi ac anghydraddoldeb fel symbylyddion trawsbynciol i bolisi.
- Sicrhau nad yw gwahaniaethu sy'n gysylltiedig â nodweddion gwarchodedig yn ei gwneud yn anoddach i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd wneud yn dda.

## Amcan 5: Sicrhau bod gwaith trawslywodraethol effeithiol ar y lefel genedlaethol yn galluogi cydweithio cryf ar lefelau rhanbarthol a lleol

Mae cyfyngiadau ar y trosolion ar gyfer newid yma yng Nghymru felly mae angen creu'r amodau cywir i alluogi'r fath newid i ddigwydd. Er mwyn ysgogi'r newid hwn, mae angen i Lywodraeth Cymru, llywodraeth leol a gwasanaethau cyhoeddus eraill gydweithio i wella bywydau plant a'u teuluoedd sydd mewn aelwydydd tlawd a lleihau tlodi yn y tymor hir.

Bydd Llywodraeth Cymru'n parhau â'i hymdrechion i weithio mewn partneriaeth â Llywodraeth y DU i drechu tlodi yng Nghymru. Gan alw arnynt i wneud newidiadau i reolau'r system budd-daliadau bresennol ynghylch lwfansau tai lleol, y cap ar fudd-daliadau a'r cyfyngiadau ar y budd-dal plant i wneud gwahaniaeth go iawn i'r aelwydydd hynny yr effeithir fwyaf arnynt gan y polisïau lles presennol.

**Blaenoriaeth 5: Galluogi cydweithredu** (ar lefelau rhanbarthol a lleol)

Daeth y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol i rym yng Nghymru ar 31 Mawrth 2021. Mae'n gwella prosesau gwneud penderfyniadau ac yn helpu'r rhai sydd o dan anfantais economaidd-gymdeithasol. Mae'r ddyletswydd hon yn rhoi cyfle i ni wneud pethau'n wahanol yng Nghymru. Mae'n rhoi trechu anghydraddoldeb wrth wraidd y broses o wneud penderfyniadau a bydd yn adeiladu ar y gwaith da y mae cyrff cyhoeddus eisoes yn ei wneud.

Bydd Llywodraeth Cymru'n:

- Cryfhau ymagwedd Llywodraeth Cymru at integreiddio nodau polisi a chyllido gyda'r nod o alluogi gwell gydweithredu tymor hwy ar waith gwrthdlodi ar lefelau rhanbarthol a lleol.
- Gweithio gyda chyrff cyhoeddus i ddatblygu a rhannu enghreifftiau arloesol o arfer da a deilliannau cadarnhaol i amlygu ble mae'r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol yn berthnasol, nodi meysydd gwaith newydd neu bresennol y gellid ac y dylid cymhwyso'r ddyletswydd iddynt, eirioli dros y ddyletswydd a chefnogi ei pherthnasedd o ran ymdrechion ehangach i drechu anfantais economaidd-gymdeithasol ac anghydraddoldebau o ran deilliannau.
- Gyda phartneriaid, nodi'r ymagwedd orau at ddarparu capasiti ychwanegol i gefnogi cydlynu ymdrechion gwrthdlodi ar draws trefniadau partneriaeth ranbarthol a nodi a chynghori ar yr opsiynau i gefnogi gweithio'n well ar y cyd i daclo tlodi plant.
- Sefydlu a chefnogi ymagwedd cymunedau arfer at ddarparu fforwm lle gall cydweithwyr ar draws y gwasanaethau cyhoeddus a ledled Cymru gymharu dysgu a rhannu arfer da i gefnogi ymagwedd gydgysylltiedig at gyllido, datblygu a gweithredu gwaith i greu Cymru Fwy Cyfartal gan gynnwys trechu tlodi plant.

## Monitro cynnydd

Cyflwynodd Llywodraeth Cymru Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 sy'n gosod dyletswydd ar weinidogion Cymru i adrodd ar y cynnydd a wnaed wrth gyflawni'r amcanion a nodir yn y strategaeth tlodi plant. Mae'r strategaeth ddrafft gyfredol wedi'i chreu ar y cyd gyda phlant, pobl ifanc, teuluoedd a'r sefydliadau sy'n eu cefnogi. Bydd y dull hwn o weithio'n parhau wrth i'r strategaeth ddiwygiedig gael ei chyflwyno.

At hynny, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i leihau'r bwlch tlodi rhwng pobl yng Nghymru sydd â nodweddion allweddol penodol a'r rhai sydd heb y nodweddion hynny erbyn 2035. Bydd Llywodraeth Cymru'n darparu diweddariadau ar gynnydd yn erbyn y garreg filltir hon ynghyd â cherrig milltir cenedlaethol a fydd yn helpu i gyflwyno Cymru fwy cynaliadwy ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol a'r presennol.



Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn gofyn am gyngor annibynnol ar ddangosyddion tlodi cenedlaethol priodol, argaeledd data a fframwaith i fonitro ac adrodd ar gynnydd wrth drechu tlodi.

## Barn gychwynnol CIH Cymru.

Mae CIH Cymru yn croesawu'r strategaeth tlodi plant ddiweddaraf hon ynghyd â buddsoddiad parhaus i drechu tlodi plant yng Nghymru. Gwyddom fod ein haelodau'n gwneud gwaith da gyda'u tenantiaid a'u cymunedau i liniaru effeithiau'r argyfwng costau byw presennol ac i helpu'r rhai sy'n wynebu caledi ariannol.

Rydym yn ymwybodol mai trosolion cyfyngedig sydd gan Lywodraeth Cymru i daclo rhai o'r materion hyn, yn enwedig am nad yw taliadau credyd cynhwysol bellach yn ddigon i deuluoedd sy'n derbyn y budd-dal hwnnw dalu am y pethau hanfodol, a hynny ar ben y rhewi parhaus yn y Lwfans Tai Lleol. Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i barhau i roi pwysau ar Lywodraeth y DU i:

- Adfer cyfraddau lwfans tai lleol (LHA) i o leiaf y 30fed canradd a dychwelyd i gynnydd blynyddol
- Dileu'r gyfradd llety a rennir o LHA
- Dileu'r cap ar fudd-daliadau a'r terfyn dau blentyn
- Dileu'r dreth ystafell wely
- Sicrhau y gall Credyd Cynhwysol dalu am y pethau hanfodol.

Mae gweithio mewn partneriaeth rhwng sefydliadau ac o fewn cymunedau'n helpu i liniaru effeithiau'r argyfwng presennol ac yn helpu'r rhai sy'n wynebu tlodi, a hoffem glywed oddi wrthych am eich gwaith yn y meysydd hyn. Sut ydych chi'n gweithio gyda'r cymunedau rydych chi wedi'ch lleoli ynddynt i liniaru effaith tlodi? Gallai hyn fod yn glwb gwaith, gallai fod yn rhedeg gwasanaeth ieuenctid, gallai fod yn glybiau coginio neu'n darparu gerddi cymunedol.

Mae pawb sy'n cydweithio ar draws llywodraeth, cyrff cyhoeddus a sefydliadau cymunedol yn allweddol i drechu tlodi plant yng Nghymru. Bydd gweithio ar y cyd yn ein helpu i gyflwyno Cymru fwy cynaliadwy ar gyfer cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol.

## Y camau nesaf

Byddwn yn darparu ymateb i'r ymgynghoriad ar y strategaeth tlodi plant drafft. Byddem wrth ein bodd â chlywed enghreifftiau o'ch gwaith i drechu tlodi plant yn eich ardal chi, eich barn ar y brîff hwn ac enghreifftiau o arfer gorau, y byddant oll yn cael eu hymgorffori fel rhan o'n hymateb i'r ymgynghoriad. I wneud hyn, cysylltwch â Cerys Clark, rheolwr polisi a materion cyhoeddus yn cerys.clark@cih.org.

